

PRICE, JOHN (1830 - 1906), prifathro'r Coleg Normal, Bangor, o 1891 hyd 1905

Enw: John Price
Dyddiad geni: 1830
Dyddiad marw: 1906
Rhiant: Edward Price
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: prifathro'r Coleg Normal, Bangor
Maes gweithgaredd: Addysg
Awdur: Thomas Roberts

Ganwyd yng Nghroesoswallt, 9 Mawrth 1830, mab y **Parch. Edward Price** Addysgwyd ef yn gyntaf yn ysgolion Birmingham, ac yna yn sir Drefaldwyn hyd onid aeth i Goleg y Bala yn 1848 dan **Lewis Edwards**. Wedi aros yno am bedair blynedd aeth i goleg hyfforddi Borough Road, Llundain, am y flwyddyn 1852-3, a chafodd yrfa eithriadol o lwyddiannus yno. Ar ôl tymor o ddwy flynedd fel ysgolfeistr yn Llanfyllin, symudodd yn 1855 i agor Ysgol Frutanaidd y Bala. Dug ei fedr fel ysgolfeistr ef i sylw **Syr Hugh Owen**, a gwahoddwyd ef i gydweithio gyda'r **Parch. John Phillips** yn y goleg hyfforddi newydd ym Mangor; dechreuodd ar ei waith yno ar agoriad y goleg yn 1858. Yn 1863 penodwyd ef yn ddirprwy-brifathro pan wnaethpwyd **Phillips** yn bennaeth y goleg, a gwasnaethodd yn yr un swydd eto o dan y **Parch. Daniel Rowlands**, o 1867 hyd 1891, pryd y penodwyd ef ei hun yn brifathro. Yn y cyfnod cyntaf syrthiodd cyfran helaeth iawn o waith y goleg ar ysgwyddau Price, ac yn y cyfnod hwnnw y gwnaeth ei wasanaeth pennaf. Bryd hynny enillodd y goleg enw uchel iddo'i hun droeon ymysg colegau hyfforddi'r deyrnas. Nid oedd y dirprwy-brifathro wedi cael addysg o radd uchel iawn, ond yr oedd yn ŵr o allu diamheuol, yn goeth ei Gymraeg a'i Saesneg, ac yn dra medrus fel athro. Dysgai amryfal bynciau, ond nid yn y rhai oedd yn hen gynefin iddo, megis pwnc Saesneg a Hanes, y cafodd ei brif lwyddiant, ond mewn pwnc a oedd yn newydd iddo, sef llysieueg. Gwir mai cyfng oedd ei wybodaeth o'r testun, ond gan faint ei frwdfrydedd newydd-anedig llwyddodd i gyfrannu yn helaeth o'i ddiddordeb i'w ddisgyblion a chreu ysbryd ymchwil mewn amryw ohonynt. Yr oedd John Price yn arweinydd mewn cylchoedd crefyddol ym Mangor, ac yn gadeirydd y bwrdd ysgol am 30 mlynedd. Yr oedd hefyd yn aelod blaenllaw o gyngor y ddinas, ac yn fawr ei ddylanwad yng nghynghorau ar lwyfan y blaid Ryddfrydol, a hynny ar adeg gynhyrfus a chynhennus iawn rhwng y Rhyddfrydwyr a'r Toriaid. Safodd yn eon dros ei olygiadau mewn llawer dadl frwd, ac yn wyneb pob ymosodiad. Ond daeth terfyn ar helbulon ei fywyd cyhoeddus ar dderbyn ohono gyfrifoldeb pellach yn y goleg, pan benodwyd ef yn brifathro, a hynny yn bennaf ar sail ei wasanaeth maith a'i weithgarwch dros addysg a chrefydd yn y cylch. Bu farw 6 Tachwedd 1906.

Awdur

Thomas Roberts, (1885 - 1960)

Ffynonellau

Bangor Normal College for the training of teachers for British schools in Wales Report, 1663-1905

Carnarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent, 1890, 1906

Yr Herald Cymraeg

North Wales Chronicle

Cymru (O.M.E.), v

Y Goleuad, 1891, 1906

Y Genedl Gymreig, 1906

Sir Henry Lewis, *The History of Bangor Normal College*

J. Lloyd Williams, *Atgofion tri chwarter canrif*, iii

Sir Henry Jones, *Old Memories. Autobiography of Sir Henry Jones* (London 1923)

MLW MSS 3841-2, 5479-83, 7825, 7827-8, 2830-1, 5481

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804721

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government